**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ian Robinson
Pennaeth Datblygu Cynaliadwy
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfa'r Doc
Heol yr Isffordd
Y Barri
CF63 4RT

13 Chwefror 2024

Annwyl Ian,

**Cyngor Bro Morgannwg – Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diolch am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bro Morgannwg. Mae'n hanfodol bod gan yr awdurdod CDLl cyfredol i roi sicrwydd i gymunedau a busnesau lleol ac i ddarparu sail gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Heb amharu ar rymoedd y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) i leihau'r risg o gyflwyno cynlluniau nad ydynt yn gadarn drwy wneud sylwadau cyn gynted â phosibl yn ystod camau paratoi'r cynllun. Mae Llywodraeth Cymru'n chwilio am dystiolaeth glir bod y cynllun yn cydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, sy'n gyson â Pholisi Cynllunio Cymru a'r profion cadernid, fel y nodir yn Llawlyfr y CDLl.

Nodir polisïau cynllunio cenedlaethol yn Rhifyn 12 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC), sy'n ceisio sicrhau lleoedd cynaliadwy o ansawdd uchel drwy ddull creu lleoedd (dylai'r CDLl sicrhau ei fod yn ystyried unrhyw fersiynau pellach o PCC cyn yr archwiliad. Caiff gweithredu'r meysydd polisi craidd yn PCC, megis mabwysiadu strategaeth ofodol gynaliadwy, lefelau tai a thwf economaidd priodol, darparu seilwaith a chreu lleoedd, eu hegluro'n fanylach yn Llawlyfr y CDLl (Rhifyn 3). **Disgwyliwn fod elfennau craidd y Llawlyfr, yn enwedig Pennod 5 a'r Rhestr Wirio/Rhestrau Gwirio Dadrisgio'n cael eu dilyn. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion allweddol hyn arwain at oedi diangen yn ddiweddarach yn y broses creu cynlluniau.** Caiff system cynllunio datblygu Cymru ei harwain gan dystiolaeth, a bydd dangos sut y caiff cynllun ei lywio gan dystiolaeth yn ofyniad allweddol yn ystod yr archwiliad o'r CDLl.

**Ar ôl ystyried y materion a'r polisïau allweddol yn nogfen Cymru'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Strategaeth a Ffefrir yn cydymffurfio'n gyffredinol â dogfen Cymru'r Dyfodol: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.** Nodir sylwadau penodol yn y Datganiad o Gydymffurfiaeth Gyffredinol (Atodiad 1). **Mae Atodiad 2 hefyd yn amlygu ystod o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn i'r cynllun gyd-fynd â PCC a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu.** Gyda'i gilydd, mae ein sylwadau'n tynnu sylw at amrywiaeth o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw, er mwyn ystyried bod y cynllun yn 'gadarn', fel a ganlyn:

**Atodiad 1 – Cydymffurfiaeth Gyffredinol â dogfen Cymru'r Dyfodol**

- Cydweithrediad Rhanbarthol - **Angen rhagor o eglurder**


**Atodiad 2 – Materion craidd y mae angen mynd i'r afael â nhw (PCC a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu)**

- Strategaeth Ofodol a Phrif Aneddiadau
- Lefelau Tai a Thwf Economaidd – Cydweithrediad Rhanbarthol
- Gwneud y Mwyaf o Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy
- Cyflawni a Gweithredu – Cyffredinol
- Sipsiwn a Theithwyr
- Ynni adnewyddadwy
- Mwynau
- Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas
- Y Gymraeg

Byddem yn eich annog i geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun er mwyn sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd gan mai eich awdurdod chi sy'n gyfrifol am y materion hyn. Dylai gofyniad i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd sy'n deillio o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, os yw'n briodol, gael ei gyflawni er mwyn asesu effaith debygol y cynllun datblygu arfaethedig ar iechyd, llesiant meddyliol ac anghydraddoldeb.

Mae fy nghydweithwyr a minnau'n edrych ymlaen at eich cyfarfod chi a'r tîm i drafod materion sy'n codi o'r ymateb hwn.

Yn gywir,



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd, Llywodraeth Cymru**

Ar gyfer materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth gyffredinol â dogfen Cymru'r Dyfodol a pholisi cynllunio, cysylltwch â: PolisiCynllunio@llyw.cymru /Ar gyfer materion yn ymwneud â gweithdrefnau'r Cynllun Datblygu Lleol a chydymffurfiaeth â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, cysylltwch â: mark.newey@llyw.cymru a candice.coombs001@llyw.cymru

## Atodiad 1 - Datganiad o Gydymffurfiaeth Gyffredinol

**Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Bro Morgannwg (2021-2036) yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol, fel y nodir ym mharagraffau 2.16 – 2.18 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3).**

Mae'r datganiad cydymffurfio hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw ei sefyllfa ffurfiol tan i'r gyfres lawn o bolisïau, cynigion a sail dystiolaeth derfynol fod ar gael i graffu arno yn y Cam Adneuo. Ar hyn o bryd, mae cyd-ddatganiad sefyllfa ar y gydberthynas rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg (BP20), sy'n ystyried twf y boblogaeth, patrymau mudo, tai a gwblhawyd, cymudo a chysylltiadau trafnidiaeth rhwng y ddau awdurdod. Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi egwyddor y gwaith hwn, mae angen tystiolaeth bellach er mwyn dangos sut mae trefniadau cydweithio rhanbarthol wedi dylanwadu ar faint y twf ym Mro Morgannwg a'r gydberthynas â phob awdurdod cyfagos, gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf.

### Rhesymau

Mae Cymru'r Dyfodol yn gosod pwyslais ar ddatblygu Ardaloedd Twf Cenedlaethol mewn ffordd gynaliadwy. Rhaid cynllunio ardaloedd twf yn gynaliadwy, lleihau'r angen i deithio yn y car, annog cerdded a beicio (teithio llesol), defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus gymaint â phosibl ac ymgorffori seilwaith gwyrdd. Rhaid i ardaloedd twf ymgorffori'r egwyddorion hyn o fewn consensws rhanbarthol ehangach, gan ganolbwyntio ar y cyfleoedd a gyflwynir ganddynt i hyrwyddo manteision cymdeithasol ac economaidd dros ardal ddaearyddol ehangach. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol er mwyn ymateb i'r argyfyngau newid hinsawdd a bioamrywiaeth a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

Mae Polisi 1 a Pholisi 33 o Cymru'r Dyfodol yn nodi mai Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd fydd y prif ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad yn y rhanbarth. **Mae'r diagram strategol (tud. 163) hefyd yn nodi Bro Morgannwg yn yr Ardal Twf Cenedlaethol.** Mae Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg yn gofyn am dystiolaeth bellach er mwyn egluro/dangos sut mae'r rhanbarth ehangach, gan gynnwys awdurdodau cyfagos Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, wedi helpu i ddylanwadu ar lefelau twf yn y cynllun newydd a'u llywio.

Mae **Atodiad 2** yn esbonio ein hymrwymiadau mewn perthynas â maint a lleoliad twf. At ei gilydd, (ac yn amodol ar y sylwadau yn Atodiad 2), mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Strategaeth a Ffefrir, gan gynnwys maint a dosbarthiad twf, yn cydymffurfio'n gyffredinol â pholisïau allweddol yn Cymru'r Dyfodol, sy'n cynnwys (ymhlith eraill):

Polisi 1: Ble bydd Cymru yn tyfu
Polisi 2: Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol
Polisi 6: Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf
Polisi 10: Cysylltedd Rhyngwladol
Polisi 12 Cysylltedd Rhanbarthol a Pholisi 36: Metro'r De-ddwyrain
Polisi 33: Ardal Dwf Genedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd

**Cydweithio Rhanbarthol – Eglurder a chyfiawnhad pellach:** Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cyd-ddatganiad sefyllfa (BP20) ar y gydberthynas rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg mewn perthynas â materion megis poblogaeth a mudo, twf tai, patrymau cymudo a thrafnidiaeth. Daw'r papur i'r casgliad y bydd gostyngiad yn y gofyniad am dai (o'r cynllun sydd wedi'i fabwysiadu ar hyn o bryd) ac mae'n cefnogi gostyngiad o'r fath. Mae'r papur yn awgrymu y bydd cynnydd yn nifer y tai a ddarperir ar y safleoedd strategol yng Nghaerdydd yn lleihau nifer y bobl o oedran

gweithio sy'n symud i'r Fro ar gyfer tai newydd i deuluoedd gan na fydd y ddau awdurdod yn cystadlu'n uniongyrchol â'i gilydd ar gyfer twf cynlluniedig. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu egwyddor y dull hwn o weithredu, **nid yw'n glir sut mae'r rhanbarth ehangach, yn enwedig Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, wedi'i gynnwys yn y broses o lywio'r dewisiadau a wnaed a chytuno arnynt a chanlyniadau unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Fro ar gyfer cynlluniau eraill yn y rhanbarth a Chynllun Datblygu Strategol (CDS) yn y dyfodol**.

Gan symud ymlaen at y cam Adneuo, bydd angen gwneud rhagor o waith er mwyn deall sut mae'r Strategaeth a Ffefrir wedi'i datblygu yn y cyd-destun rhanbarthol ehangach gan fod **Cymru'r Dyfodol yn cyflwyno safbwynt newydd y mae'n rhaid i bob CDLl ei fabwysiadu o ran ba le sydd i bob cynllun o fewn y rhanbarth cyfan a'r gydberthynas â CDLlau eraill sydd, yn ei hanfod, yn ddull strategol o ymdrin â chydberthnasau trawsffiniol cyn cychwyn CDS yn ffurfiol.**

## Atodiad 2 – Materion craidd y mae angen mynd i'r afael â nhw (PCC a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu)

**<u>Strategaeth Ofodol – Lleoliad Twf</u>**

Mae'r Cyngor wedi profi 4 opsiwn gofodol:

Opsiwn 1 – parhau â strategaeth twf y CDLl mabwysiedig
Opsiwn 2 – Twf Gwasgaredig
Opsiwn 3 – Twf Penodol
Opsiwn 4 – Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy

Mae'r Cyngor wedi dewis Opsiwn 4: Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir ganddo. Nod y strategaeth yw lleoli'r rhan fwyaf o'r twf newydd yn yr aneddiadau hynny sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan seilwaith rheilffordd presennol/arfaethedig ar hyd llinellau cangen Bro Morgannwg/Penarth. Bydd hyn yn annog pobl i wneud y defnydd mwyaf posibl o ddulliau teithio cynaliadwy yn Ardal Twf Strategol ddynodedig y cynllun. Mae'r Ardal Twf Strategol yn cynnwys y rhan fwyaf o aneddiadau mwyaf a mwyaf cynaliadwy'r Cyngor ac mae'r Cyngor o'r farn y bydd canolbwyntio gwaith datblygu yma yn lleihau'r angen i deithio ac yn cydleoli tai â chyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol.

Am fod cyfran sylweddol o dir llwyd y Cyngor eisoes wedi'i ddatblygu/clustnodi, prin yw'r cyfleoedd ar gyfer gwaith datblygu ar dir llwyd yn y dyfodol. Nodir, o ystyried y banc tir presennol o 6060 o anheddau, er mwyn bodloni'r gofyniad tai arfaethedig, fod angen i'r awdurdod ddyrannu tua 2,600 o unedau ar safleoedd newydd. O ganlyniad, mae'r cynllun wedi mabwysiadu strategaeth sy'n canolbwyntio ar safleoedd maes glas yn bennaf gan ddyrannu'r mwyafrif o waith datblygu newydd ar bum safle allweddol (KS1-5) ar ymyl safleoedd aneddiadau sydd â chysylltiadau da, yn agos i orsafoedd trenau presennol neu arfaethedig. Nodwn fod y Cyngor wedi defnyddio data Trafnidiaeth Cymru yn y broses asesu safleoedd ymgeisiol i asesu safleoedd a pha mor agos ydynt i nodau trafnidiaeth. **Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r strategaeth ofodol, sy'n cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC) ac mae'n cydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol.**

**<u>Strategaeth Ofodol – Prif Aneddiadau</u>**

Mae hierarchaeth aneddiadau'r Cyngor yn dyrannu tua 95% o'r holl ddatblygiadau tai (clustnodedig ac arfaethedig) i aneddiadau yn nhair haen uchaf yr hierarchaeth. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r dull hwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r broses adolygu, mae aneddiadau Croes

Cwrlwys a'r Wig wedi'u codi (o'r safle a nodir yn y cynllun mabwysiedig) o Aneddiadau Gwledig Bach i Brif Aneddiadau. Mae'r ddau anheddiad wedi'u lleoli y tu allan i'r Ardal Twf Strategol ac mae Polisi SP2 yn nodi'n glir, yn yr aneddiadau hyn, y caiff twf ei gyfyngu i ailddefnyddio adeiladau presennol, cyfleoedd mewnlenwi, tai fforddiadwy ar raddfa fach a mentrau gwledig yn unig. Ar y sail hon, **nid yw'r rhesymeg dros nodi bod Croes Cwrlwys a'r Wig yn Brif Aneddiadau yn glir,** yn enwedig gan y bydd yr aneddiadau hyn yn cyflawni'r un swyddogaeth â'r Aneddiadau Gwledig Bach haen is fel y'u nodir ym Mholisi SP2. Mae'r cynllun (6.47) yn nodi'n glir na fydd y Cyngor yn cefnogi twf yng Nghroes Cwrlwys na'r Wig oherwydd eu lleoliad gwledig gan y byddai unrhyw dwf yma yn annog teithio mewn ceir, sy'n groes i'r Strategaeth a Ffefrir ac yn cael ei waethygu gan ddiffyg Gwasanaethau Allweddol (BP5) yn yr aneddiadau, yn enwedig Croes Cwrlwys. **Bydd angen i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth a chyfiawnhau safle Croes Cwrlwys a'r Wig fel Prif Aneddiadau yn yr hierarchaeth er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl yn deillio o roi'r cynllun ar waith ar ôl iddo gael ei fabwysiadu.**

**<u>Lefel Twf – Cartrefi a Swyddi</u>**

Mae'r Strategaeth a Ffefrir (Polisi SP3) yn darparu ar gyfer 8,679 o gartrefi i fodloni gofyniad tai o 7,890 o gartrefi newydd (526 y flwyddyn) dros gyfnod y cynllun, sef 2021-2036, y bydd o leiaf 2,000 ohonynt yn gartrefi fforddiadwy. Y lwfans hyblygrwydd a gynigir gan y Cyngor yw 10%. Mae'r swyddi newydd a ddarperir ar gyfer hyd at 5,388 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun.

**<u>Cartrefi:</u>** Prif amcanestyniadau 2018 Llywodraeth Cymru yw'r amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer y Strategaeth hon a Ffefrir. **Bydd angen i'r Cyngor ystyried unrhyw amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd sy'n seiliedig ar Gyfrifiad 2021 i'r dyfodol er mwyn iddynt gael eu cyhoeddi cyn i'r cynllun gael ei archwilio.** Byddai prif amcanestyniad 2018 yn arwain at ofyniad o 430 o unedau y flwyddyn neu 6,463 o unedau dros gyfnod y cynllun (gan ddefnyddio cyfradd gwacter o 4%). Mae lefel y twf mewn tai a gynigir yn y cynllun tua +2,215 o unedau uwchlaw prif amcanestyniad 2018 Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor o'r farn nad yw'r lefel is hon o dwf yn briodol gan nad yw'r amcanestyniadau yn ystyried unrhyw benderfyniadau polisi ac am iddynt gael eu paratoi cyn pandemig COVID-19 gyda goblygiadau i batrymau mudo a llai o swyddi yn cael eu cynnig.

Profodd y dystiolaeth ddemograffig (Chwefror 2023, Edge Analytics) 12 o senarios twf a oedd yn cynnwys: senarios a arweinir gan ddemograffig, senarios a arweinir gan anheddau a senarios a arweinir gan gyflogaeth. Mae'r gofyniad tai a ffefrir yn seiliedig ar senario 'arweinir gan anheddau' 10 mlynedd (526 o anheddau y flwyddyn) a fyddai'n arwain at dwf o 9.7% yn y boblogaeth dros gyfnod y cynllun gyda chyfradd mudo net blynyddol o 1,009 o bobl. Mae'r Cyngor o'r farn y gellir cyflawni'r lefel hon o dwf mewn tai gyda chyfran fawr yn cael ei darparu drwy ymrwymiadau presennol (51%) a chyfanswm swyddi (4,875 o swyddi) sy'n cyd-fynd, fwy neu lai, â lefel y swyddi newydd a ragamcenir yn yr Astudiaeth o Dir Cyflogaeth (5,338 o swyddi). At hynny, mae'r Cyngor o'r farn bod maint y twf yn cyd-fynd â Cymru'r Dyfodol a'r rôl y mae'r awdurdod yn ei chwarae yn rhanbarth ehangach y de-ddwyrain. Gan fod disgwyl i fudo i Fro Morgannwg o Gaerdydd arafu wrth i safleoedd strategol y Ddinas ddarparu lefelau uwch o dai a gyda chyfleoedd cyflogaeth yn y Fro yn cael eu cydleoli â safleoedd tai, mae cyfleoedd pellach i leihau'r lefelau uwch o allgymudo i Gaerdydd. Ar y cyfan, cynigir y dull hwn o weithredu gan y Cyngor er mwyn sicrhau lefel twf sy'n cyd-fynd â CDLl Caerdydd sy'n cael ei ddatblygu a rhanbarth ehangach y de-ddwyrain. Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cyd-ddatganiad sefyllfa rhwng Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd (BP20) **rydym o'r farn bod gwaith pellach yn hanfodol mewn perthynas â chydweithio rhanbarthol er mwyn dangos y casgliad hwn,** yn enwedig y gydberthynas rhwng Bro Morgannwg ac ACLlau cyfagos (gweler Atodiad 1).

Nodwn fod cyfraddau cwblhau hanesyddol ym Mro Morgannwg wedi amrywio'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y gyfradd gwblhau gyfartalog 10 mlynedd flaenorol (2011-2021) yw 526 o anheddau y flwyddyn. Aed y tu hwnt i'r gyfradd hon dros y pum mlynedd diwethaf (2016-2021) gyda 780 o anheddau yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn. Mae cyfraddau adeiladu yn ystod y

blynyddoedd diwethaf i'w priodoli'n rhannol i gyflawni strategaeth y CDLl mabwysiedig presennol sy'n canolbwyntio mwy ar 'aneddiadau gwledig' gydag anheddau yn cael eu hadeiladu ar sawl safle mewn llawer o aneddiadau. Ni fyddai ailadrodd y dull hwn o weithredu yn y dyfodol yn cydymffurfio â Cymru'r Dyfodol na PCC o ran datblygu a thrafnidiaeth gynhaliadwy. Ar y sail hon, mae'r Cyngor o'r farn y byddai cwblhau 526 o anheddau y flwyddyn yn y senario 'arweinir gan anheddau' 10 mlynedd a ffefrir yn gynaliadwy ac yn gyflawnadwy ac y byddai'n darparu lefel o dwf swyddi (5,338 o swyddi) sy'n cyd-fynd â'r gofyniad tai. **Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu lefel y tai a gynigir yn y cynllun a bydd dangos sut y darperir safleoedd tai allweddol yn hanfodol gan symud ymlaen i'r cam Adneuo** fel sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru, Cymru'r Dyfodol a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu.

**<u>Swyddi:</u>** Mae opsiwn y Cyngor ar gyfer twf a arweinir gan anheddau dros 10 mlynedd yn arwain at ofyniad am 4,875 o swyddi newydd (325 y flwyddyn) dros gyfnod y cynllun. Mae hyn yn cyd-fynd, fwy neu lai, â'r twf rhagamcanol ar gyfer 5,338 (355 y flwyddyn) o swyddi newydd yn yr Astudiaeth o Dir Cyflogaeth (BP12) ac fel y'i nodir ym Mholisi SP13. Noda Llywodraeth Cymru y gallai lefel twf cyflogaeth fod yn uwch (hyd at 13,978 o swyddi) petai anheddau yn cael eu hadeiladu ar gyfanswm y cyflenwad realistig o dir (177ha). Fodd bynnag, mesur o nifer y swyddi y gallai'r tir eu cynnal yw hwn yn hytrach na rhagolwg o swyddi newydd gan na ddisgwylir i'r safleoedd strategol gael eu cwblhau tan ar ôl cyfnod y cynllun, hynny yw ar ôl 2036.

Mae lefel y twf mewn cyflogaeth a gynigir (5,338 o swyddi) dros gyfnod y cynllun islaw'r targed yn y cynllun sydd wedi'i fabwysiadu ar hyn o bryd (7,610-10,610 o swyddi). Mae'r Cyngor o'r farn bod y targed is yn adlewyrchu'r garfan o bobl o oedran gweithio ym Mro Morgannwg yn well a byddai o blaid parhau â thueddiadau hirdymor o ran darparu tai sy'n ystyried y twf isel mewn tai ar ôl y dirwasgiad a chyfnod byrrach o gyfraddau cwblhau anheddau hanesyddol uchel (2016-2021). Ar y sail hon, **nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon sylweddol ynghylch lefel y twf mewn swyddi a gynigir yn y cynllun.**

**I grynhoi, (ac yn amodol ar yr eglurhad uchod), nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon sylweddol ynghylch lefel y cartrefi a'r swyddi a gynigir yn y cynllun, sy'n cydymffurfio'n gyffredinol â Cymru'r Dyfodol.**

**<u>Darpariaeth Tai Fforddiadwy</u>**

**<u>Yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol sy'n cael ei ddatblygu –</u>** Mae'r Nodyn Cryno i'r Asesiad drafft o'r Farchnad Dai Leol (BP10A) yn cyfrifo'r angen am dai fforddiadwy dros gyfnod y cynllun newydd gan ddefnyddio Prif Amcanestyniad 2018 Llywodraeth Cymru, sy'n niwtral o ran polisi, a'r opsiwn a ffefrir ar gyfer twf. Mae'r broses o gyfrifo'r angen rhagamcanol am dai fforddiadwy yn erbyn senario 'arweinir gan anheddau' 10 mlynedd yn arwain at ofyniad am 7,643 o gartrefi fforddiadwy dros gyfnod y cynllun (510 y flwyddyn) gyda rhaniad deiliadaeth o 67% o gartrefi rhent cymdeithasol a 33% o gartrefi canolradd. Mae'r ffigurau yn is ar gyfer y senario niwtral o ran polisi (sy'n dangos bod angen cyfanswm o 7,011 o unedau o dai fforddiadwy) pan gânt eu cyfrifo gan ddefnyddio prif amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru a luniwyd yn 2018.

Mae'r cynllun (Polisi SP8) yn nodi targed i ddarparu o leiaf 2,000 o gartrefi fforddiadwy, a gaiff ei ddiwygio a'i ddiweddaru ar y cam Adneuo. Yn y ddau fodel, mae'r angen am dai yn ymestyn ar draws pob un o 13 o Ardaloedd y Farchnad Dai ac mae'r angen am eiddo ag un ystafell wely yn fwy dybryd yn y Barri, Penarth a Llanilltud Fawr. Noda Llywodraeth Cymru mai ym Mhrif Anheddiad y Barri ac mewn Aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaethu, sy'n cynnwys Penarth a Llanilltud Fawr, y bwriedir lleoli'r rhan fwyaf o'r datblygiadau tai newydd (54%).

Ar y sail hon, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon sylweddol ynghylch y gydberthynas rhwng yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol sy'n cael ei ddatblygu a'r Strategaeth a Ffefrir. Fodd bynnag, **am nad yw'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi'i gwblhau eto, ceidw Llywodraeth**

**Cymru ei safbwynt ar y mater hwn nes i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi erbyn y cam Adneuo**.

**Safleoedd a Arweinir gan Dai Fforddiadwy -** Er mwyn darparu tai fforddiadwy ychwanegol sy'n fwy na'r cyflenwad o dai y gall y farchnad ei ddarparu, mae'r awdurdod yn cynnig (ym Mholisi SP2) y dylid caniatáu datblygiadau tai ar raddfa fach a arweinir gan dai fforddiadwy sy'n darparu o leiaf 50% o dai fforddiadwy ar safleoedd sy'n cynnwys hyd at 25 o anheddau mewn aneddiadau gwledig bach a 50 o anheddau mewn prif aneddiadau. **Cefnogir egwyddor y dull hwn o weithredu.** Rhaid i'r safleoedd hyn fod yn ychwanegol at y gofyniad a arweinir gan dai'r farchnad ac wedi'u nodi yn y CDLl. Cyfiawnheir y dull polisi hwn gan lefel uchel yr angen am dai fforddiadwy a ddangosir gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a rhaid iddo gael ei ategu gan reolaeth ychwanegol dros y tir gan yr awdurdod cynllunio lleol er mwyn sicrhau y caiff anheddau eu darparu'n effeithiol. Dylai tystiolaeth gynnwys perchenogaeth o'r tir, cytundeb cyfreithiol rhwymol os yw'r tir yn eiddo preifat neu benderfyniad gan y cyngor i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r cynllun na'r dystiolaeth ategol yn glir ac weithiau maent yn gwrth-ddweud ei gilydd o ran a fydd y safleoedd hyn wedi'u lleoli o fewn neu ar ymyl ffiniau aneddiadau. At hynny, nid yw maint na lleoliad y safleoedd hyn yn glir (y Cynllun, Tabl 3, Rhes F) lle nad oes unrhyw leoliadau gofodol na rhifau anheddau wedi'u priodoli iddynt. Sut mae dull gweithredu o'r fath yn cymharu â'r strategaeth ofodol sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth.

Rhaid i safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy sydd hefyd yn cynnwys tai'r farchnad gael eu lleoli o fewn ffin anheddiad er mwyn cydymffurfio â'r gofynion yn TAN 2. Dim ond safleoedd eithriedig sydd ond yn cynnwys tai fforddiadwy y gellir eu lleoli y tu allan i ffin anheddiad os ydynt yn cydymffurfio â PCC/TAN ac unrhyw ofynion trothwy/polisi a bennir yn y cynllun datblygu. **Mae angen egluro'r dull o ymdrin â datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy, a'u maint a'u lleoliad a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol.**

**Tir Cyflogaeth**

Mae'r Astudiaeth o Dir Cyflogaeth (BP12) a gynhaliwyd gan y Cyngor yn nodi gofyniad am 67.80ha o dir cyflogaeth, sy'n cynnwys clustog o bum mlynedd. Mae'r gofyniad yn seiliedig ar barhau â thueddiadau blaenorol (dros 25 mlynedd) ac mae'n ddigon mawr i gyflawni'r rhagolwg o swyddi, sef 5,338. Fodd bynnag, mae Polisi SP13 yn nodi dyraniadau tir cyflogaeth â chyfanswm arwynebedd o 168ha, sef cynnydd o tua +100ha uwchlaw'r gofyniad am dir cyflogaeth. Mae'r safleoedd sy'n darparu'r cyflenwad hwn yn ddyraniadau cyflogaeth mawr yn bennaf sy'n denu mewnfuddsoddiad rhanbarthol sylweddol ym Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Bro Tathan ac maent yn cyfrif am 139ha (83%) o'r holl ddarpariaeth. Ar y sail hon, **nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r orddarpariaeth o dir cyflogaeth yn y cynllun** oherwydd mae'n rhaid i ddynodiad yr Ardal Fenter gael ei nodi ac mae pob un o'r dyraniadau ynddi (SP13: 1-3) yn destun diddordeb datblygwyr ar gyfer defnyddiau cyflogaeth arbenigol.

**Cyflwyno a Gweithredu**

Yn unol â gofynion allweddol ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Pennod 5) yn cynnwys arweiniad ar y gofynion mewn perthynas â chyflwyno cynlluniau a'u rhoi ar waith. Dylai'r Cynllun Adneuo nodi manylion safle-benodol ar gyfer Safleoedd Allweddol sy'n cynnwys amserlenni cyffredinol y gwahanol gamau datblygu, gofynion seilwaith allweddol, egwyddorion creu lleoedd (gan gynnwys fframweithiau cysyniad/uwchgynllun sgematig), cyfyngiadau a gofynion datblygwyr, lle y bo'n briodol. Nodwn fod y Strategaeth a Ffefrir wedi cynnwys gwaith uwchgynllunio/seilwaith sy'n cael ei ddatblygu ar safleoedd allweddol, ac ystyrir bod hyn yn ddechrau da i adeiladu arno wrth symud ymlaen at y cam Adneuo.

Bydd camau datblygu, amseriad a chyllid Safleoedd Allweddol a'r broses o'u cyflwyno yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynllun yn darparu lefel y twf sydd ei angen dros gyfnod y cynllun. Nodwn fod dau o'r Safleoedd Allweddol yn Sain Tathan (KS4 a KS5) sy'n cynnwys cyfanswm o 1,150 o

unedau yn dibynnu ar ddarparu gorsaf drenau newydd yn Sain Tathan er mwyn cyflawni amcanion y strategaeth ac annog newid dulliau teithio i fathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd angen i'r Cyngor, ar y cyd â Trafnidiaeth Cymru, ddangos tystiolaeth gadarn o'r ffordd y darperir y safleoedd a chynnwys gwaith dichonoldeb a'r cyllid sydd ei angen i sicrhau'r orsaf newydd yn ystod camau datblygu cynnar y safleoedd allweddol. Gallai'r safleoedd datblygu hefyd effeithio ar y rhwydwaith cefnffyrdd, yn enwedig Cyffordd 34 yr M4 a bydd angen i lefel a math addas o asesiad traffig fod ar gael ar y cam Adneuo. Bydd hefyd angen i'r Cyngor ddangos y gall y Safleoedd Allweddol hyn a'r holl elfennau tai eraill gael eu darparu drwy drywydd tai a baratowyd gan y Cyngor a'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai. Byddai Datganiadau Tir Cyffredin ar gyfer dyraniadau allweddol, yn arbennig y rhai sydd wedi'u trosglwyddo o'r cynllun mabwysiedig, yn fanteisiol i ddangos y gellir darparu'r safleoedd hyn yn unol â'r amserlenni a nodwyd.

Bydd hefyd angen i'r cynllun Adneuo gael ei ategu gan astudiaeth tai fforddiadwy lefel uchel ac arfarniadau dichonoldeb safle-benodol ar gyfer Safleoedd Allweddol, lle y bo'n briodol. Rhaid i'r holl waith dichonoldeb gael ei baratoi ar y cyd â'r Grŵp Llywio Dichonoldeb a hyrwyddwyr safle-benodol.

## Sipsiwn a Theithwyr

Mae drafft terfynol yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Mehefin 2022) yn nodi bod angen cyfanswm o 11 o leiniau dros gyfnod y cynllun hyd at 2036, a bod angen naw o'r lleiniau hynny 'ar unwaith' erbyn 2026.

Erbyn y cam Adneuo, rhaid i'r awdurdod fodloni ei ddyletswydd statudol a chydymffurfio â gofynion Polisi Cynllunio Cymru (4.2.35), Cylchlythyr 005/2018 (paragraff 35) a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (5.80-5.85) i ddyrannu safleoedd digonol y mae modd eu cyflawni yn y cynllun ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr heb eu diwallu.

Erbyn y cam Adneuo, bydd hefyd angen i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw safleoedd yn cael eu hategu gan broses dethol safleoedd dryloyw a chadarn sy'n cyd-fynd â gofynion Cylchlythyr 005/2018 ac unrhyw ganllawiau perthnasol. Rhaid cytuno ar safbwyntiau'r cyrff statudol perthnasol hefyd cyn y cam Adneuo heb unrhyw wrthwynebau nas datryswyd i ddarparu'r safleoedd.

## Ynni adnewyddadwy

Cymru'r Dyfodol: Mae Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi bod y Barri yn Ardal â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy (BP15) yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu Rhwydwaith Gwresogi Ardal sy'n defnyddio gwres gwastraff o Gyfleuster Biomas y Barri, ond gan fod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch dyfodol y safle, daw'r astudiaeth i'r casgliad bod risg sylweddol yn gysylltiedig â defnyddio'r safle fel ffynhonnell o wres gwastraff. Yn yr astudiaeth ystyrir mai cymharol brin yw'r cyfleoedd i sefydlu rhwydweithiau gwresogi ardal y tu allan i'r Barri.

Mae'r astudiaeth yn nodi, ym Mro Morgannwg, fod datblygiadau solar yn fwy addas nag ynni gwynt oherwydd llwybr hedfan awyrennau yn ne'r Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, mae rhai cyfleoedd ar gyfer safleoedd ynni gwynt, ond maent yn debygol o fod yn fach (<10MW) lle mae'r risgiau i awyrennau yn fach ac mae rhywfaint o fynediad i'r grid. Ar y llaw arall, mae darnau helaeth o dir sy'n addas ar gyfer ardaloedd solar (>10MW) yng Ngorllewin y Fwrdeistref Sirol, lle nad oes fawr ddim datblygiadau presennol. Mae'r astudiaeth yn nodi 20 o ardaloedd solar mawr ond yn cydnabod y gallai cyfyngiadau'r grid effeithio ar allu'r safleoedd i gael eu datblygu.

Gallai'r cynllun Adneuo nodi ardaloedd solar a gwynt (lle y bo'n briodol) uwchlaw 10MW. Yn yr achos hwn, bydd angen i'r cynllun nodi'n glir bod datblygiadau ynni ar raddfa fawr (>10MW) yn cael eu dosbarthu'n Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac y cânt eu hystyried yn unol â'r polisïau yn Cymru'r Dyfodol. Dylai'r cynllun hefyd gynnwys polisi seiliedig ar feini prawf ar gyfer pob datblygiad ynni adnewyddadwy a gynigir, yn enwedig datblygiadau gwynt, o dan 10MW.

**Mwynau**

Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (2[il] Adolygiad) yn nodi dosraniad o sero ar gyfer darpariaeth tywod a graean tir a enillwyd ym Mro Morgannwg. Mae llythyr egluro polisi Llywodraeth Cymru (dyddiedig 11 Tachwedd 2021) yn nodi gwarged o 1.68mt o gerrig mâl. Am fod gwarged o gronfeydd wrth gefn o gerrig mâl ac nad oes unrhyw dywod na graean yn cael ei gynhyrchu yn y Fro, nid oes angen unrhyw ddyraniadau penodol yn y cynllun newydd. Fodd bynnag, erbyn y cam Adneuo, dylai'r cynllun fod wedi'i ategu gan Ddatganiad Cydweithio Is-ranbarthol ag awdurdodau cyfagos yn isranbarth Dinas Caerdydd er mwyn esbonio sut y caiff unrhyw ddiffyg ei unioni ledled y rhanbarth, yn enwedig ar gyfer cerrig mâl, y mae gan y Fro gormod ohono.

**Tir Amaethyddol**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r Strategaeth a Ffefrir mewn perthynas â thir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. Fodd bynnag, dylid ystyried y meysydd i'w hegluro a'r materion canlynol wrth baratoi'r cynllun Adneuo:

**Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol:** Mae'r fethodoleg yn glir mewn perthynas â chymhwyso'r polisi ar dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, y sail dystiolaeth (map rhagfynegol) a'r canllawiau presennol. Yn y fethodoleg, ystyrir tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas o dan gyflwr 2. Anogir hyrwyddwyr safleoedd i ddefnyddio'r Map rhagfynegol ac, yn unol â'r canllawiau, gomisiynu arolygon os bydd tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn fater i'w ystyried.

Mae'r Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth yn anghytuno â'r asesiad 'goleuadau traffig' a nodir yn adran 8.3.6 lle y nodir bod tir amaethyddol isradd 3a yn y categori 'oren'; dylai 3a hefyd fod yn y categori 'Coch'. Mae PCC paragraff 3.58 yn nodi'n glir, '*Tir amaethyddol o radd 1, 2* ***a 3a*** [ychwanegwyd y pwyslais] *yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol'*.

**Asesiad Ynni Adnewyddadwy:** Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy wedi ystyried y polisi ar dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, yn benodol ar gyfer solar ffotofoltäig, a'r defnydd o'r Map Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol. Dim ond tir nad yw'n dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (Isradd 3b, Gradd 4 a 5) a ystyriwyd gan yr asesiad. Byddai'r asesiad yn elwa o gyfeirio at yr eglurhad a roddir yn y llythyr Annwyl Prif Swyddog Cynllunio (DCPO) dyddiedig 1 Mawrth 2022 mewn perthynas â solar ffotofoltäig a thir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas er cyflawnder.

**Papur pwnc – Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas:** Mae'r awdurdod wedi llunio papur pwnc penodol ar gymhwyso'r polisi ar dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas. Mae hyn i'w groesawu ac mae'n golygu bod y proses o asesu'r strategaeth a ffefrir yn llawer cliriach. Mae'r papur ond yn ymdrin â chymhwyso'r polisi ar dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ym mhroses asesu safleoedd ymgeisiol y CDLl. Byddai'r papur yn elwa o ddarparu rhai sylwadau rhagarweiniol cychwynnol ar gymhwyso'r polisi ar dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn y strategaeth ofodol, y sail dystiolaeth a'r asesiad gofodol integredig (ISA) er cyflawnder. Byddai hyn yn dangos sut mae'r polisi wedi'i gymhwyso at bob cam o'r broses o ddatblygu'r CDLl. Mae materion sy'n gofyn am waith/eglurhad pellach fel a ganlyn:

- Nodwyd bod dau o'r Safleoedd Allweddol yn cynnwys tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas ac mae arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol wedi'u comisiynu i gadarnhau'r radd hon. Byddai'r Adran ar gael i ddilysu unrhyw arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol a gynhelir gan yr awdurdod neu hyrwyddwyr safleoedd.

- Nodir bod nifer o ddyraniadau presennol y CDLl yn cael eu ‘trosglwyddo’ fel y nodir yn y cynllun (Atodiad 1). Dylid ailasesu’r safleoedd hyn yn erbyn y map Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol (2019) ac arolygon sydd eisoes ar gael, am fod yr asesiad desg a gynhaliwyd ar y pryd (2015) yn rhagflaenu'r map Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol a'r canllawiau presennol ar y gofynion o ran arolygon.

- Mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno ag adran 5.5 o'r papur pwnc, mewn perthynas â'r trothwy o 20Ha i ymgynghori â Llywodraeth Cymru (TAN6, Atodiad B2). Dim ond mewn perthynas ag achosion o Wyro y byddai hyn yn digwydd. Yn achos CDLlau, mae TAN6 Atodiad B1 yn nodi'r trefniadau i awdurdodau ymgynghori â'r Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth.

**Y Gymraeg**

Mae'r asesiad gofodol integredig yn nodi nad yw materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi'u cynnwys ar hyn o bryd ac yr ystyrir hyn ymhellach yn y cynllun Adneuo. **Mae peidio â chynnwys digon o dystiolaeth am effaith y Strategaeth a Ffefrir ar y Gymraeg yn destun pryder.** Dylai asesu'r effeithiau ar faterion megis y Gymraeg gael ei alinio'n llawn â'r gwaith o ddatblygu'r cynllun yn gynnar yn y broses ac nid ar y cam Adneuo. Nid oes unrhyw ymrwymiadau clir o ran sut y bydd y cynllun yn cynnal neu'n cefnogi'r cynnydd pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol yn unol â dyheadau'r Llywodraeth i gefnogi'r cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith. Byddai'n fuddiol pe gallai'r cynllun Adneuo amlinellu ac ystyried y polisi a'r deddfau canlynol yn ogystal â strategaethau lleol:

- Mesur y Gymraeg (2011): yn arbennig yn unol â safonau Cymraeg yr awdurdod o lunio polisïau newydd
- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Byddwn yn cynghori'r awdurdod i gysylltu â'r Fenter Iaith leol (Menter Iaith y Fro) i gael rhagor o gymorth a chefnogaeth.